

## Mewn ffocws

*“Atebodd Iesu ef, ‘Y mae’n ysgrifenedig: “Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethi.”” (adn. 8)*

### Beth am ddarllen Luc 4:1–13 ac yna myfyrio

Yr ydym am symud nawr i edrych ar nodwedd arall o fywyd yr eglwys yn Antiochia. Yr oedd yr eglwys yn sylweddoli pwysigrwydd addoliad. Mae’r adroddiad yn Actau 13:2 yn dweud wrthym: “Tra oeddent hwy’n offrymu addoliad i’r Arglwydd ac yn ymprydio, dywedodd yr Ysbryd Glân, ‘Neilltuwch yn awr i mi Barnabas a Saul, i’r gwaith yr wyf wedi eu galw iddo.’” Sylwch fod yr Ysbryd Glân wedi llefaru tra oeddent yn addoli ac yn ymprydio, gan roi’r arweiniad angenrheidiol iddynt. Nid dim ond yn gwasanaethu anghenion a gofalu am bobl yr oedd yr eglwys yn Antiochia, roeddent hefyd yn gwybod beth oedd gwasanaethu Duw mewn addoliad. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwasanaethu eraill a gwasanaethu’r Arglwydd.

Yn anffodus, mae’r balans yma wedi mynd ar goll mewn rhai eglwysi. Maent yn addoli’r Arglwydd, ond heb ymdeimlo o gwbl ag angen pobl eraill. Ar yr ochr arall, mae yna ymdeimlad ag angen pobl, ond nid ydynt yn ymhyfrydu yn yr Arglwydd. Ychydig yn ôl, clywais am weinidog yn dweud: “Rhaid symud canolbwynt bywyd yr Eglwys o’r addoliad ar y Sul i ofal am anghenion corfforol a thymhorol pobl. Mewn geiriau eraill, canolbwynt bywyd yr Eglwys ddylai fod y gymuned, nid Duw. “Mae gwasanaethu pobl,” meddai, “yn wasanaeth i Dduw.” Petai i ni ddilyn ei esiampl a’i syniadau, gallem hepgor addoli Duw yn gyfan gwbl, gan wasanaethu dynion yn unig. Mae ateb Iesu yn ein darlleniad heddiw yn cael ei newid felly o ‘Addolwch yr Arglwydd eich Duw, ac ef yn unig’ i ‘Rhowch heibio addoli Duw, gan wasanaethu pobl yn unig.’ Pendraw hyn yw dyneiddiaeth – ymroi i anghenion dynol yn unig.

Yn ôl yr Ysgrythur, y gweithwyr gorau yw’r addolwyr gorau, oherwydd wrth i ni weld Duw yn iawn, fe fyddwn yn gweld angen dyn yn iawn.

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Bren. 3:11–20; Marc 12:28–31; Dat. 2:1–7

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa bryd y mae’r Ysbryd yn siarad wrthym?
2. Pam fod yr Effesiaid wedi meddu ffocws anghywir?

### Gweddi

O Dad, gofala bod fy mlaenoriaethau yn rhai priodol: addoli yn gyntaf, gweithio yn ail. Gwared fi rhag cyfnewid y drefn yma, oherwydd, wrth wneud hynny, nid wyf yn gwneud dy ewyllys di; nid wyf o unrhyw werth i eraill ychwaith. Yn enw Iesu Grist. Amen.